



Polisi Gyrfaoedd

Dyddiad Cymeradwyo a Dyddiad Adolygu
Date Approved and Review Date

*Gweler Cynllun Adolygu Polisiau
See Policy Review Timetable*

**Polisi Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith
Ysgol Dyffryn Conwy**

Cefndir ac ethos

Mae gan bob disgybl hawl cyfartal i addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd o ansawdd uchel sy'n rhoi dealltwriaeth o fyd gwaith iddynt, sy'n eu helpu i ymchwilio i opsiynau gyrfa ac sy'n eu cefnogi gyda'r gwaith o wneud penderfyniadau ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt.

Fel ysgol i ddisgyblion 11- 18 oed anelwn at alluogi disgyblion i drosglwyddo'n effeithiol i addysg, chyflogaeth neu hyfforddiant Ôl-16 ac i'n gadael yn meddu ar y sgiliau gyrfa a fydd yn eu helpu mewn dyfodol ansicr a hynod o gystadleuol.

Nodau ein rhaglen AGBG

Rydym yn cefnogi'n llawn Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith sy'n nodi bod angen i ddisgyblion ddatblygu'r tri maes eang canlynol:

- hunanymwybyddiaeth a datblygiad;
- cyfleoedd gyrfa; a
- cynllunio gyrfa.

Egwyddorion

Rhaid i'n rhaglen AGBG:

- gysylltu'n effeithiol ag ABCh a'r Cwricwlwm Cenedlaethol er mwyn i'r myfyrwyr ddysgu i'r eithaf ac osgoi dyblygu di-fudd
- ddarparu gwybodaeth gyfredol a chwbl ddiuedd trwy weithio'n agos â Gyrfa Cymru, cyflogwyr a sefydliadau AB ac AU.
- herio stereoteipio ac annog disgyblion i ehangu eu syniadau o ran gyrfa. Bydd disgyblion yn dysgu sut i ddelio â rhagfarn a chamwahaniaethu a sut i ddefnyddio sgiliau pendantrwydd a negydu.
- Adlewyrchu gwir natur byd gwaith heddiw ac yfory.

Y cyflwyno a'r cynnwys

Blwyddyn 9

- Bydd y disgyblion yn pontio i AGBG o fewn y rhaglen diwtorial ABCh e.e bydd y cydlynedd gyrfaoedd yn cynnal gweithdy dwy wers, yn ystod diwrnodau/wythnos sgiliau ar y sgiliau y mae cyflogwyr eu hangen. Yn ystod y cyfnod hwn bydd y disgyblion yn chwarae 'Gem Gyrfaoedd'. Pwrpas y gêm ydy i'r disgyblion gychwyn ystyried pynciau sy'n gysylltiedig gyda gyrfaoedd gwahanol.
- Bydd disgyblion yn canolbwyntio ar eu cryfderau a'u gwendidau, byddant yn ymarfer gwneud penderfyniadau ac yn edrych ar amrediad eang o swyddi gan gynnwys rhai llai cyffredin er mwyn eu hannog i feddwl yn eang.
- Canolbwyntir ar ddewisiadau ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 a'u goblygiadau.
- **Mae'r cynllun wedi ei ymgorffori i wersi ABCh/Tiwtorial ym mlwyddyn 9 sydd yn arwain at wneud eu dewisiadau rhydd drwy wefan Gyrfa Cymru yn Nhymor yr Hydref.**
- **Gwersi/cyfnodau tiwtorial 'Dewisiadau':** Esbonio'r drefn dewisiadau ar wefan 'Gyrfa Cymru'.
- **Gwers Gyrfaoedd MAT:** Cyflwyno gwers gyrfaoedd MAT er mwyn ysgogi'r disgyblion hyn.

Blwyddyn 10 ac 11

- Llenwi Ffurflen gwirio gyrfa (gwefan Gyrfa Cymru).
- Gwaith grŵp a chyfweliadau unigol gyda Swyddog Gyrfa Cymru (yn unol a chynllun gweithredu Gyrfa Cymru).
- Wythnos profiadau byd gwaith ar ddiwedd Blwyddyn 10 yn cynnwys gweithdai ar sgiliau cyfweliad, ysgrifennu CV (cwmni Learning Performance) gyda cyswllt i'r rhaglen Menter y Fagloriaeth a diwrnod Cyfweliadau gyda cyflogwyr lleol yn ystod tymor yr Hydref blwyddyn 11.

- Ceir cyflwyniadau gan ystod y gyflogwyr mewn partneriaeth a cyflogwyr lleol a Gyrfa Cymru a cynhelir ymweliadau i gyflogwyr lleol a diwrnod menter 'Dragon's Den'.
- Ategir y gwaith gan ymweliad i Ffair Sgiliau Blynyddol yn Venue Cymru ac i wythnos o godi ymwybyddiaeth am profiadau prentisiaeth.
- Cyflwynir calendr o brofiadau yn y 'Digwyddiadur Gyrfaoedd' ar gyfer blwyddyn 10 ac 11 yn flynyddol.
- Sgyrsiau gan diwtoriaid coleg ac ymweliadau â cholegau.
- Noson gwybodaeth am yrfaeodd/llwybrau pellach i Flwyddyn 11 (Noson Agored y 6ed, ymweliad i ddiwrnod Linc Conwy, ymweliadau/sesiynau blasu i unigolion i goleg Llandrillo/Coleg Glynllifon/Llysfasi – yn unol a'u llwybrau ol-16/prosiect Seren).
- Trefnir cyfleoedd Profiad Gwaith Estynedig a chymwysterau perthnasol ar gyfer disgyblion bregis ym mlwyddyn 11 mewn partneriaeth a Rhwydwaith 14-19 Conwy a cynllun TRAC. Yn flynyddol mae rhwng 10-15 disgybl yn manteisio o'r cyfle hyn.

Blwyddyn 12 ac 13

- Cefnogir disgyblion i adnabod cyfleoedd o brofiad gwaith ym Mlwyddyn 12 a rhaglen o baratoi ac adborth i sicrhau'r dysgu gorau posibl (gweler polisi Profiad Gwaith).
- Ymweliadau a sgyrsiau gyda Cholegau, Phrifysgolion, Mudiadau a Chyflogwyr fel rhan o gynllun y BAC, Diwrnodau Sgiliau a Gwersi Tiwtorial.
- Gweithredu 'Pasbort y Bac' – adnabod llwybrau astudio/gyrfa, ymchwilio a chyflwyno cynllun unigol.
- Sesiynau galw mewn gyda Swyddog Gyrfa Cymru (os yn berthnasol i gynllun gweithredu Gyrfa Cymru).
- Cymorth ar gyfer ceisiadau UCAS, Coleg, Prentisiaeth a byd Gwaith.
- Cyfleoedd i gymryd rhan mewn cynlluniau megis Prosiect Seren (disgyblion MAT); RYLA (Cynllun Arweinwyr y Rotari) i ddisgyblion.
- Heriau y Bac – Cymunedol, Menter, Dinasyddiaeth ac Ymchwil Unigol.

Swyddogaethau a chyfrifoldebau

Cynllunnir, cydlynir ac arfarnir y rhaglen GBG gan y Cydgysylltydd gan weithio'n agos gyda'r Dirprwy bennaeth cwricwlwm a Pennaeth Cynorthwyol Lles a Cynnydd Disgyblion. Mae disgrifiad swydd ar gael i esbonio'r rôl hon.

- Penaethiaid blwyddyn a thiwtoriaid sy'n gyfrifol am addysgu a rhoi adborth ar yr agweddau a addysgir o'r rhaglen AGBG.
- Gweithiwn yn agos iawn â staff Gyrfa Cymru gan gynnwys ein cynghorydd gyrfa gyswllt ac aelodau'r tîm gwasanaethau addysg.
- Bydd y Cydgysylltydd yn cynnal sesiynau briffio ar GBG ar gyfer staff, gyda chefnogaeth Gyrfa Cymru.

Adnoddau

- Posterï yn hyrwyddo gwefannau defnyddiol i ddisgyblion yn y chweched dosbarth. Wedi ei leoli ym mloc y 6ed ac ystafell waith y 6ed dosbarth.
- Llyfrgell cylchgronau - prosiectysau Colegau a Phrifysgolion yn ystafell waith y 6ed dosbarth.
- Gwefan Gyrfa Cymru.
- Defnyddir swyddfa'r CCG ar gyfer cyfweiliadau un i un ar lefel ysgol a gyda'r swyddog Gyrfa Cymru. Mae'n cynnwys amrediad o wybodaeth am yrfaeodd hefyd.
- Trafodir y gyllideb ar gyfer AGBG yn flynyddol yn unol â chynllun datblygu AGBG a'r angen i ddiweddarau deunyddiau.

Partneriaethau

Cyfoethogir y rhaglen AGBG yn fawr trwy'r cysylltiad gyda nifer o bartneriaid sy'n ein helpu i wneud dysgu'r disgyblion yn rhywbeth 'real' a chyfredol. Yn ogystal â'r cysylltiadau cryf gyda Gyrfa Cymru, rydym wastad yn anelu at ehangu a gwella ein cysylltiadau gyda chyflogwyr a grwpiau lleol eraill. Mae'r cysylltiadau hyn yn cynnwys darparu lleoliadau profiad gwaith, grwpiau ffocws, sgyrsiau yn ystod ABCh, Ffair Gyrfaoedd a sesiynau ffug gyfweiliadau.

Mae ein partneriaid hefyd yn cynnwys colegau Addysg Bellach a chynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhyngom er mwyn adolygu ein rhaglen AGBG, derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i'r cwricwlwm ar y ddwy ochr a chynllunio er mwyn i ddisgyblion drosglwyddo'n effeithiol.

Mae rhieni'n hanfodol i ddealltwriaeth y disgyblion o'r dewisiadau a'r penderfyniadau a wnânt o ran gyrfa. Rhown yr wybodaeth ddiweddaraf i rieni/gwarcheidwaid am ddewisiadau yn 14+ a 16+ a threfnwn sesiynau gwybodaeth i rieni. Anogir hwy hefyd i wneud apwyntiad i siarad â chynghorydd gyrfa i drafod pryderon unigol.

Gyrfa Cymru

- Cyflwyniadau efo rhai wedi nodi gan y Penaethiaid Cynnydd.
- Cyfweiliadau gyda disgyblion wedi eu targedu gan gynnwys y rheini mewn peryg o fod yn NEET.
- Mewnbyn i adolygiadau blynyddol disgyblion ADY (blaenoriaeth i ddisgyblion bl. 9-11).
- Gwaith grŵp gyda grwpiau penodol.

Monitro ac arfarnu

Arfarnir pob gweithgaredd sy'n ffurfio rhan o'r rhaglen AGBG a defnyddir yr wybodaeth i helpu gyda'r gwaith cynllunio am y flwyddyn i ddod. Defnyddiwn gymysgedd o ffurflenni arfarnu (e.e. disgyblion yn llenwi un ar ddiwedd uned ar yrfaeodd yn ystod ABCh), grwpiau ffocws (e.e. gyda grŵp cynrychioliadol o ddisgyblion Blwyddyn 11 ar ôl profiad gwaith) ac arolygon gadael (e.e. gofyn i rieni ar ddiwedd noson gwybodaeth am yrfaeodd). Mae'r arfarnu'n canolbwyntio ar ba mor effeithiol y bu'r digwyddiad/gweithgarwch gyda helpu'r disgyblion i ddysgu beth bynnag oedd y canlyniadau dysgu arfaethedig. Casglir adborth staff trwy ffurflenni arfarnu a cheir trafodaeth yn ystod cyfarfodydd.

Mae arfarniad gyrfaeodd blynyddol AGBG yn defnyddio canlyniadau'r broses arfarnu barhaus ac wedyn mae'n cael ei droi'n gynllun datblygu. Mae'r CCG a'r dirprwy bennaeth yn cydweithio i arfarnu a gosod prif flaenoriaethau am y flwyddyn newydd ac i arfarnu ac adolygu blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn.

*AGBG – Addysg Gyrfaeodd a Byd Gwaith

ABCh – Rhaglen Addysg Bersonol a Chymdeithasol yr ysgol